

# DOLEN Y TAB – 42

12–13 CHWEFROR 2021

## \*OEDFA RITHIOL 14 CHWEFROR\*

Bydd yr oedfa ar y testun 'Cyfiawnder Hiliol' yng ngofal y Parchg. Aled Edwards gyda chyfraniadau gan Hefin Gruffydd.

### YR OEDFAON NESAF

#### Chwefror

- 21 Lyn West.  
28 Lowri a Dafydd a'r teulu.

#### Mawrth

- 7 Y Parchg. Aled Edwards.  
14 Edwyn Evans.  
21 Y Parchg. Gethin Rhys.  
28 Emlyn Davies.

#### *Hefyd ar 7 Chwefror . . .*

**11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol**  
Yr wythnos yma bydd yr oedfa dan ofal y Parchedig Enid Morgan.

**12.00 Oedfa Radio Cymru**  
yng ngofal Josh Edwards – Cymdeithas y Beibl.

**12.30 Radio Cymru**  
*Bwrw Golwg* gyda John Roberts.

**E-fwletin Cristnogaeth21** newydd i'w weld bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

### Llongyfarchiadau!

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Brengain Rhys a Steffan West, y ddau wedi dathlu eu pen-blwydd yn 18 oed yn ystod y dyddiau diwethaf.

## Apêl

Os oes rhywrai fyddai'n fodlon cyfrannu at oedfaon 2021, plis wnewch chi gysylltu gyda Geraint Rees ([geraintrees@hotmail.com](mailto:geraintrees@hotmail.com) / 07816 341527).

Mae angen pob talent arnom i gynnal y llif o amrywiaeth ar gyfer Suliau gweddill y flwyddyn.

**Diolch yn fawr.**

## GWERTHFAWROGIAD

Nos Fawrth 9 Chwefror cynhaliwyd ail gyfarfod y flwyddyn o'r Bwrdd. Ar noson rewlyd, roedd pawb yn falch iawn nad oedd raid iddynt fentro allan o'u cartrefi clyd i 'fynychu'r' cyfarfod. Nododd Edwyn Evans, Cadeirydd y Cyfarwyddwyr, ar ddechrau'r cyfarfod ei bod hi'n bwysig datgan ein gwerthfawrogiad fel Bwrdd ac eglwys i'r holl waith a wneir y tu ôl i'r llenni i drefnu a chyflwyno'r oedfaon gwych rydym yn eu derbyn bob bore Sul. Da gweld cynifer o'n haelodau'n cymryd rhan ynddynt, ond serch hynny mae'r cyfrifoldeb pennaf dros y 'darllediadau' hyn yn dibynnu ar ddau neu dri o unigolion tu hwnt o ymroddgar. Estynnwn ein diolch iddynt hwy am ofalu bod neges yr efengyl yn cael ei chyflwyno mewn ffyrdd mor amrywiol ac effeithiol, a hynny dros gyfnod o 10 mis ansicr iawn i bawb.

Gan nad yw'r rhagolygon yn rhy obeithiol y gallwn ddychwelyd i'r Tabernacl i gyd-addoli am fisoedd eto, tybed a oes modd denu un neu ddau sy'n meddu ar y sgiliau technegol i rannu'r cyfrifoldeb trwy gynnig cynhyrchu ambell oedfa? Os oes diddordeb gennych, yna cysylltwch gyda Geraint Rees ([geraintrees@hotmail.com](mailto:geraintrees@hotmail.com) / 07816 341527).



## Thank You

For your very generous donation of £2,130 to Taff-Ely foodbank.


Thank you for your concern and care and your heart that responds to such need.

Your gift is greatly appreciated as it enables us to continue what we do to be able to provide food parcels to the many families who need them.

They are greatly appreciated and help us to provide for the many people who are in need.

Derbyniwyd y poster uchod i'w arddangos i'r aelodau gan Lol Delbridge, ar ran Banc Bwyd Taf-Elái, fel arwydd o'u gwerthfawrogiad am gyfraniad hael diweddaraf Capel y Tabernacl tuag at gynnal y Banc Bwyd – gwasanaeth a welodd gynnydd aruthrol yn y galw amdano dros y 12 mis diwethaf. Cofiwch fod yr Apêl am gyfraniadau yn parhau i fod ar agor. [Gweler drosodd am ddulliau cyfrannu at yr apêl.]

Nos Fercher, traddodwyd darlith ddiddorol dan nawdd Cymdeithas Hanes Undeb yr Annibynwyr Cymraeg gan y Parchg. Ddr. Alun Tudur. Roedd cynulleidfa niferus o bob cwr o Gymru yn 'bresennol' yn y cyfarfod Zoom i glywed ffrwyth ei



ymchwil ar ymddangosiad heintiau amrywiol ar draws y canrifoedd yma yng Nghymru a thu hwnt, cyn iddo symud ymlaen i adrodd sut roedd Cristnogion ac eglwysi wedi ymateb i'r plâu gwahanol a effeithiodd arnynt yn y gorffennol.

Un canfyddiad arwyddocaol y cyfeiriwyd ato ar ddechrau'r ddarlith oedd fod nifer fawr o heintiau ar hyd y canrifoedd wedi cael dylanwad pell-gyrhaeddol ar ddatblygiadau crefyddol, cymdeithasol, economaidd a masnachol y ddynoliaeth. Un enghraifft nodedig oedd hanes tranc yr Ymerodraeth Rufeinig. Damcaniaeth haneswyr dros gyfnod maith oedd mai anfoesoldeb, gormodaeth a grym y Barbariaid oedd achos ei chwymp. Bellach, fodd bynnag, mae haneswyr o'r farn fod heintiau'r cyfnod wedi difa canran uchel o'r boblogaeth, a hynny fu'n bennaf cyfrifol am ei dranc. A ninnau'n byw yng nghanol pandemig byd-eang ar hyn o bryd, mae'n amhosib dyfalu a fydd yna effeithiau pell-gyrhaeddol ar ein gwarediddiad ni yn yr unfed ganrif ar hugain. Amser yn unig a ddengys.

## PLÂU YNG NGHYMRU

Y llynedd fe ledaenodd COVID-19 – a welodd olau dydd gyntaf yn Tseina ym mis Rhagfyr 2019 – i bob cwr o'r byd o fewn ychydig fisoedd. I'r sawl sy'n gyfarwydd ag un o'r apiau hynny sy'n dangos nifer a lleoliad awyrennau sy'n hedfan ar unrhyw awr o'r dydd a'r nos, doedd e ddim yn syndod bod y firws newydd wedi ymledu mor eithriadol o gyflym o wlad i wlad. Er bod ymlediad heintiau mewn cyfnodau hanesyddol cynharach yn llawer arafach, yn cymryd blynyddoedd yn hytrach na misoedd, dros amser roedd heintiau a gychwynnodd eu taith mor bell i ffwrdd ag Asia yn taro Cymru. Mae'n debyg mai dros y môr o Ewrop y cyrhaeddodd y Pla Du lannau Cymru ym mis Mawrth 1349, gan mai casglwyr tollau yng Nghaerfyrddin oedd ymhlith y cyntaf i ddiodef.

Yn ei ddarlith, canolbwyntio ar bedair yn unig o'r heintiau niferus a effeithiodd ar Gymru wnaeth Alun Tudur, sef y Pla Du a laddodd un o bob tri o drigolion Cymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, y Frech Wen rhwng yr 16<sup>eg</sup> ganrif a'r 18<sup>fed</sup> ganrif, y Geri Marwol (Cholera) yn y 19<sup>eg</sup> ganrif a'r Ddarfodedigaeth (TB) yn yr 19<sup>eg</sup> a'r 20<sup>fed</sup> ganrif.

O feddwl pa mor aml mae pla neu haint wedi cyrraedd Cymru dros y canrifoedd, byddai'n deg dweud cyn mis Mawrth y llynedd bod mwyafrif y boblogaeth yma yng Nghymru yn credu bod gennym imiwnedd iddynt ac mai problem gwledydd y trydydd byd yn unig oedd y rhain. Erbyn hyn, mae pawb yn gwybod yn well.

## YMATEB YR EGLWYS

Yn rhan olaf ei ddarlith, disgrifiodd Alun Tudur pa ymateb gafwyd gan yr eglwysi i heintiau yn y gorffennol. Ar ddechrau'r cyfnod, roedd anwybodaeth lwyr am darddiad a lledaeniad plâu. Does ryfedd felly i'r eglwysi droi at hanesion y Beibl a gweld yno mai cosb Duw oedd gwraidd yr heintiau, a hynny am fod pobl wedi troi eu cefnau arno. Felly, ar ddyfodiad haint newydd, byddai gweinidogion yn annog pobl i edifarhau a chredu yn yr Iesu er mwyn sicrhau bywyd tragwyddol. Ymateb arall a gafwyd oedd annog pobl i droi at Dduw mewn gweddi dros waredigaeth rhag y pla, a chlywid am fil a mwy o bobl yn mynychu ambell gwrdd gweddi yn galw ar i Dduw eu hamddiffyn. Wrth gwrs, doedd dim llawer iawn y gallai aelodau'r eglwysi ei wneud yn ymarferol i atal pla rhag lledaenu, ond eto roedd gofalu dros deulu a dioddefwyr yn digwydd yn gyson iawn mewn oes pan nad oedd Gwasanaeth Iechyd Gwladol i ofalu am gleifion.

Wrth gloi'r ddarlith, fe'n hatgoffwyd fod heintiau'n gallu newid cwrs hanes, a does wybod eto pa effaith a gaiff COVID-19 ar ein heglwysi a sylfeini ein diwinyddiaeth yn wyneb canfyddiadau gwyddonol. Ond yr hyn rydym wedi'i ddysgu o'n profiad diweddar yw nad oes gan holl ddyfeisgarwch gwyddonwyr reolaeth lwyr ar bopeth.

*(Mae'n fwriad cyhoeddi'r ddarlith yn rhifyn nesaf Y Cofiadur – cylchgrawn Cymdeithas Hanes yr Undeb.)*

## CYFRANIADAU I'R ACHOS AC I ELUSENNAU

Dylid anfon siec wedi'i chyflwyno i *Capel y Tabernacl Cyf.* at: **Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.** Os byddwch yn anfon ato, rhowch y siec mewn amlen wen neu frown, gan nodi eich rhif aelodaeth. Nodwch ar wahân os yw'r arian yn gyfraniad penodol i'r Banc Bwyd. Ar y llaw arall, gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn, Casgliad Amlenni Brown neu'r Banc Bwyd a rhoi eich rhif aelodaeth yn y blwch sy'n gofyn am gyfeirnod:

**Enw'r cyfrif:** Capel y Tabernacl Cyf.

**Cod didoli:** 30 – 96 – 72

**Rhif y cyfrif:** 03607499

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.*

*Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: [gehpenqwert@yahoo.co.uk](mailto:gehpenqwert@yahoo.co.uk) / 07710 237327 / 01443 225205.*